

SL(6)296 – [Rheoliadau Ardrethu Annomestig \(Symiau a Godir\) \(Cymru\) 2022](#)

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi rheolau sydd i'w defnyddio i ganfod y swm a godir ar gyfer hereditamentau gyda chynnydd yn rhwymedigaeth ardrethi annomestig (NDR) o fwy na £300, o ganlyniad i gynnydd yng ngwerth ardrethol eu hereditament, yn dilyn llunio'r rhestr ardrethi annomestig newydd ar 1 Ebrill 2023.

Mae'r Rheoliadau'n lleihau rhwymedigaeth trethdalwyr cymwys, gan ganiatáu i unrhyw gynnydd gael ei gyflwyno'n raddol dros gyfnod o ddwy flynedd: bydd gan drethdalwyr cymwys hawl i gael gostyngiad graddedig mewn unrhyw gynnydd yn eu rhwymedigaeth dros gyfnod o ddwy flynedd (gostyngiad o 67% yn 2023-24, a 34% yn 2024-25).

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Rheoliadau hyn yn nodi:

Mae busnesau wedi wynebu newidiadau a heriau economaidd sylweddol ers yr ailbriso blaenorol ac, yn arbennig, oherwydd effaith pandemig y coronafeirws a'r pwysau costau byw diweddar. O ganlyniad, gall llawer o drethdalwyr ar gyfer eiddo canolig a mawr gael trafferth i dalu eu cynnydd llawn mewn rhwymedigaeth yn y flwyddyn gyntaf yn dilyn ailbriso. Gallai rhai o'r trethdalwyr hyn hefyd weld y cynnydd mwyaf mewn rhwymedigaeth. Byddai'r opsiwn hwn yn sicrhau bod pob rhan o'r sylfaen drethu yn cael eu cefnogi mewn modd syml a chyson.

Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd



Nodir y cynnydd o ran rhwymedigaeth ardrethi annomestig a gyflwynir yn raddol o 1 Ebrill 2023 ymlaen, a chost hyn i Lywodraeth Cymru fel y'i nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

Byddai'r opsiwn hwn yn cefnogi amcangyfrif o 39,600 o eiddo, ar gost o £75.2m i Lywodraeth Cymru yn 2023-24 a £37.6m yn 2024-25, sef cyfanswm o £112.8m dros gyfnod o ddwy flynedd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

